

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Merthyr Tudful (Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2018/19

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Merthyr Tudful yn parhau i fodloni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Merthyr Tudful 9 ohonynt yn llawn ac 1 ohonynt yn rhannol, ac mae'n un o ddim ond pedwar awdurdod i gyrraedd y lefel hon.

Caiff gwasanaethau llyfrgell eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor Bwrdeistref. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn 2018/19, gan gofnodi lefelau defnydd gwell mewn nifer o feysydd a lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid. Fodd bynnag, effeithiodd problemau capasiti ar rai agweddau ar y ddarpariaeth, yn bennaf, rhaglenni digwyddiadau a gweithgareddau. Mae gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu yn 2018/19, ac mae'r gwasanaeth ymhlith yr ychydig awdurdodau sydd wedi parhau i gyrraedd y targedau caffael a bennwyd. Dylai buddsoddiad penodol mewn stoc iaith Gymraeg, gyda gwaith marchnata priodol, gael effaith gadarnhaol ar faterion Cymraeg yn 2019/20 hefyd. Mae gwelliannau yn yr adnoddau a roddwyd i'r gwasanaeth wedi'i gwneud yn bosibl iddo atgyfnerthu perfformiad, er bod lefelau staffio isel yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol. Dylai ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol i gefnogi gwasanaethau llyfrgell gydnabod yr effaith gadarnhaol a gaiff lefel briodol o fuddsoddiad mewn staff, adnoddau a chyfleusterau ar ddefnyddwyr.

- Mae arolygon o ddefnyddwyr (a ailgyhoeddir bob blwyddyn) yn dangos bod lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid yn parhau, a chânt eu defnyddio i lywio'r broses o ddatblygu'r gwasanaeth.
- Mae cymorth ar gyfer iechyd a lles yn parhau'n gryf, gyda Merthyr Tudful yn un o ddau awdurdod yn unig sy'n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau o dan DA 4 ym mhob cangen. Mae sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn parhau i gofnodi'r niferoedd mwyaf sy'n mynychu y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, ond mae'r niferoedd wedi lleihau yn 2018/19.
- Mae problemau o ran capasiti wedi effeithio ar y rhaglen o ddigwyddiadau / gweithgareddau, gyda'r niferoedd sy'n mynychu yn lleihau o ganlyniad i hynny. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd mewn meysydd eraill naill ai wedi parhau ar yr un lefel neu wedi gwella, ond erys nifer yr eitemau i blant a fenthycir ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru.
- Mae gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu, gyda ffocws penodol ar fuddsoddi mewn adnoddau Cymraeg; cyflawnir y targedau caffael ar gyfer DA 9 a DA 10.
- Mae lefelau staffio cyffredinol wedi parhau ar yr un lefel, ond roedd un swydd wag broffesiynol yn y gwasanaeth yn 2018/19 sydd wedi cyfyngu ar gapasiti ymhellach; nid yw lefelau'r targed a bennwyd yn y naill achos na'r llall yn cael eu cyflawni.

- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cael ei adfer ychydig, ar ôl gostyngiad sylweddol yn 2017/18, ond erys ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru, a bydd hyn yn ffactor sy'n cyfyngu ar berfformiad mewn rhai meysydd.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd â thargedau, dangosyddion ansawdd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Darperir adroddiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3.

2.1 Hawliau craidd

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn, gan gyrraedd pob rhan o'r gymuned. Mae gwasanaethau llyfrgell wedi'u teilwra at anghenion lleol, gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasol a demograffig, ac ymgynghoriadau drwy arolygon blynyddol, i lywio'r gwasanaethau a gynigir. Erys cysylltiadau a phartneriaethau lleol yn ganolog i'r gwaith o hyrwyddo a darparu'r gwasanaethau hyn, a hefyd drawsweithio o fewn yr Ymddiriedolaeth, drwy waith marchnata, a'r cyfle i gyrraedd mwy o bobl sy'n defnyddio cyfleusterau eraill yr Ymddiriedolaeth.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a deg ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 9 yn llawn, ac yn 1 yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 – Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 – Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Cyflawni'n llawn
Derbyniadau y pen o'r boblogaeth	✓	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen o'r boblogaeth	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i gwario ar y Gymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen o'r boblogaeth	✓	

DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'i chyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff y pen o'r boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig y pen o'r boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 – Oriau agor y pen o'r boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Mae perfformiad Merthyr Tudful wedi gwella ychydig yn 2018/19, gyda'r gwasanaeth yn cyflawni'r ddau darged caffael ar gyfer DA 10.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 1. Mae'r ffigurau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod 2017/18 neu 2018/19. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Mae Merthyr Tudful yn cynnal arolygon o ddefnyddwyr i oedolion a phlant unwaith y flwyddyn; felly, caiff y ffigurau eu diweddarau bob blwyddyn.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	95%	=5/13	60%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	94%	3/15	38%	88%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	97%	=10/20	80%	97%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Merthyr Tudful dair astudiaeth achos o'r fath, ond byddai mwy o dystiolaeth o'r effaith ar gyfranogwyr wedi cryfhau'r sylwadau, ac wedi helpu i lywio'r camau nesaf:

- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod – digwyddiad yn y Llyfrgell Ganolog gyda'r nod o rymuso menywod ifanc, drwy ddathlu cyflawniadau menywod ym Merthyr Tudful fel esiamp. Cynhaliwyd cyfres o anerchiadau / cyflwyniadau cyn dadorchuddio plac porffor i'r hanesydd ffeministaidd Ursula Masson. Bu'n ddiwrnod 'ysbrydoledig' i'r rhai a gymerodd ran.

- Diwrnod Trevithick - prosiect ar y cyd i ddefnyddio Diwrnod coffa blynyddol Trevithick i hyrwyddo treftadaeth leol a balchder dinesig, a thrwy gystadleuaeth ysgrifennu i ysgolion lleol, i helpu i ddatblygu sgiliau ysgrifennu a chyfathrebu. Hyrwyddwyd y gystadleuaeth drwy gyfres o weithdai am ddim i ysgolion, gyda thros 120 o blant yn cymryd rhan. Cafodd ffilm o wobrwyo'r enillwyr, a oedd yn cynnwys darlenniadau o'r straeon buddugol gan actor lleol adnabyddus, ei gwneud a'i rhyddhau ar Facebook.
- Awr y Ddaear – trefnodd y gwasanaeth llyfrgell Ddiwrnod Hwyl i'r Teulu, gan weithio gyda sefydliadau partner, er mwyn rhoi gwybodaeth i bobl o bob oedran a'u hysbrydoli i newid eu ffordd o fyw er mwyn gwella'r amgylchedd. Cynigiwyd nifer o weithgareddau awyr agored, gan ddefnyddio llyfrau / arteffactau i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd. Cyn y Diwrnod ei hun, cynhaliwyd sesiwn 'Addewid am y Blaned' gyda grwpiau cymunedol lleol hefyd. Daeth dros 300 o bobl i'r Diwrnod Hwyl i'r Teulu a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Merthyr Tudful ar gyfer 2018/19. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Mae ffigurau o flwyddyn gyntaf y chweched fframwaith neu arolygon blaenorol perthnasol hefyd wedi'u cynnwys at ddibenion cymharu. Caiff dangosyddion 'y pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	94%	2/15	24%	82%	96%	94%
c) iechyd a lles	88%	2/15	33%	62%	94%	88%
d) lle diogel a chroesawgar	100%	1/15	90%	97%	100%	100%
DA 2 – Boddhad cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	98%	1/14	81%	91%	98%	98%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	100%	=1/14	93%	99%	100%	100%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	94%	2/13	65%	91%	95%	94%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol	99%	=1/14	93%	97%	99%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.0	=11/13	8.5	9.3	9.5	9.0
DA 5 – Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr y pen o'r boblogaeth	208	1/22	13	30	208	238
c) hyfforddiant anffurfiol y pen o'r boblogaeth	366	3/22	15	199	433	329
DA 6 – Mynychwyr mewn digwyddiadau y pen o'r boblogaeth						
	250	14/22	91	295	689	288
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell¹						
a) ymweliadau y pen o'r boblogaeth	3,820	13/22	2,596	3,969	7,170	3,825
b) rhith-ymweliadau y pen o'r boblogaeth	948	10/22	345	885	2,205	865
c) benthycwyr gweithredol y pen o'r boblogaeth	149	12/22	58	150	251	148

DA 10 – Benthyciadau Cymraeg y pen o'r boblogaeth ²	417	17/22	95	602	1,424	379
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron y pen o'r boblogaeth ³	10	9/22	5	10	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	63%	1/22	14%	25%	63%	62%
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	46	7/21	3	30	214	51
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	632	19/21	90	1,477	9,806	800
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen o'r boblogaeth	£8,820	21/22	£7,181	£12,145	£19,449	£7,799
b) % ar staff	52%	18/22	47%	62%	78%	63%
% ar adnoddau gwybodaeth	20%	3/22	8%	13%	21%	20%
% ar offer ac adeiladau	3%	13/22	0.4%	4%	25%	5%
% ar gostau gweithredol eraill	25%	7/22	0.3%	16%	37%	13%
c) gwariant cyfalaf y pen o'r boblogaeth	£0	=17/22	£0	£467	£8,829	£0
DA 15 – Cost net am bob ymweliad	£1.18	22/22	£1.18	£1.82	£2.52	£1.29
DA 16 – Oriau agor ⁴						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.00%	0.25%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/20	0.00%	0.28%	7.99%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân

² fesul 1,000 o'r boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ffigurau o adroddiadau 2017/18 wedi'u cywiro yn dilyn gwall cyfrifo

³ fesul 10,000 o'r boblogaeth breswyl ⁴ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith (2017/18).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Gwnaeth Merthyr Tudful adnewyddu ei arolygon o ddefnyddwyr (oedolion a phlant) ym mis Mawrth 2019 fel rhan o'i gylich blynyddol o ymgynghori drwy arolygon, gyda lefelau uchel o berfformiad yn parhau ym mhob maes. Mae pob un o'r llyfrgelloedd sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a lles, gyda Merthyr Tudful yn un o ddau awdurdod yn unig sy'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau a nodwyd ym mhob un o'i fannau gwasanaeth. Mae'r niferoedd sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi lleihau unwaith eto yn 2017/18, ond maent yn dal ar y lefel uchaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r niferoedd a gafodd eu helpu drwy hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu, gyda galw cynyddol am gymorth anffurfiol ochr yn ochr â mynediad at seilwaith i ddod o hyd i ystod gynyddol o wasanaethau ar-lein.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Merthyr Tudful yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion

arbennig ym mhob un o'r llyfrgelloedd sefydlog. Mae'r niferoedd sy'n mynychu yn y maes hwn wedi parhau i leihau yn 2018/19, gyda phroblemau o ran capasiti yn effeithio ar nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd; fodd bynnag, mae'r perfformiad yn dal yn uwch na'r lefel ganolrifol, ac mae'r gwasanaeth yn nodi, yn achos nifer mawr o'i ddigwyddiadau a'i weithgareddau, nad oes digon o leoedd i bawb sydd am ddod. Mae'r defnydd a wneir o lyfrgelloedd mewn meysydd eraill naill ai wedi parhau ar yr un lefel neu wedi gwella, gyda nifer y llyfrau i oedolion a fenthycir bellach uwchlaw'r lefel ganolrifol, ond mae nifer yr eitemau i blant a fenthycir dal ymhlith yr isaf yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱ

Mae gwariant ar eitemau a gaffaelwyd wedi cynyddu yn 2018/19, yn sgil gostyngiad yn 2017/18 ac mae Merthyr bellach yn un o bum awdurdod yn unig sy'n cyflawni gofynion DA 9. Mae gwariant y gwasanaeth ar ddeunyddiau Cymraeg hefyd wedi gwella (gan dargedu gwariant yma ar ôl buddsoddiad mawr mewn stoc i blant yn 2017/18), ac mae bellach yn cyflawni dau darged DA 10 ar gyfer gwariant, ond erys nifer yr eitemau Cymraeg a fenthycir y pen o'r boblogaeth ymhlith yr isaf yng Nghymru. Nodir bod y buddsoddiad o ran hyn wedi digwydd ar ddiwedd y flwyddyn a'r gobraith yw y bydd y stoc well, ynghyd â marchnata priodol, yn cael effaith gadarnhaol yn 2019/20. Mae'r ddarpariaeth o gyfrifiaduron personol wedi parhau ar yr un lefel, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt wedi cynyddu unwaith eto, gyda'r gwasanaeth bellach yn cofnodi'r defnydd mwyaf yng Nghymru. Nodir bod gwerth gwasanaethau TG i gymunedau lle mae gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi cael eu torri, yn enwedig gyda'r pwysau cynyddol i gael gafael ar wasanaethau'n ddigidol, yn ffactor sy'n cyfrif am hyn. Mae perfformiad o ran cyflenwi ceisiadau wedi dirywio unwaith eto, ond mae'r ddau darged yn dal i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi parhau ar yr un lefel, ond oherwydd swydd wag ar gyfer llyfrgellydd cymwysedig yn y gwasanaeth, bu lleihad yn nifer y staff proffesiynol yn y flwyddyn adrodd hon. Er y byddai lefelau staffio proffesiynol yn cael eu hadfer drwy recriwtio i'r swydd hon, ni fyddai'r gwasanaeth yn cyflawni'r naill darged staffio na'r llall o hyd, a nodir nad oes unrhyw debygolrwydd y bydd nifer y staff yn cynyddu, na bwriad i'w leihau. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn ei lle, ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion ar gyfer hyfforddiant / datblygiad proffesiynol y staff, a hynny ar lefel well. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi lleihau ychydig yn 2018/19, gyda 46 o wirfoddolwyr yn cyfrannu tua 14 awr yr un i'r gwasanaeth. Nodir bod y swydd wag, a'r lefelau staffio isel yn gyffredinol, wedi arwain at lai o allu i fynd at i weithio gyda gwirfoddolwyr, eu recriwtio a'u hyfforddi.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cael ei adfer ychydig, ar ôl gostyngiad sylweddol yn 2017/18, ond erys ymhlith yr isaf y pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi parhau ar yr un lefel, gyda phwyslais ar sicrhau mynediad cyfartal ym mhob man gwasanaeth, ac nid oedd unrhyw achosion o gau llyfrgelloedd heb gynllunio hynny nac amharu ar y gwasanaeth.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Fel yn 2017/18, mae'r gwasanaeth yn nodi ei gyfraniad at y canlyniadau a flaenoriaethwyd yng

Nghynllun Llesiant lleol Merthyr Tudful, sy'n cyfrannu ei hun at nodau Llesiant ehangach Cymru. Er y nodir ystod lawn o weithgareddau a chyfraniadau, byddai ychydig mwy o fyfyrion yn y sylwadau ar y ffordd y mae datblygiadau a darpariaeth yn 2018/19 yn cefnogi'r meysydd hyn wedi bod yn briodol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Yn ei adroddiad ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn ganlynol, mae Merthyr Tudful yn nodi'r cyfyngiadau o hyd ar lefelau staffio a chyllidebau, ond gydag ymrwymiad gan yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol i barhau i gefnogi a datblygu'r gwasanaeth llyfrgell. Nodir mai prif ffocws gweithgarwch y flwyddyn nesaf fydd canolbwyntio o'r newydd ar gynlluniau cyflawni a strategaethau i ymgorffori'r Ffyrdd o Weithio a'r Nodau Llesiant yn fwy eglur yn y ffordd y darperir gwasanaethau, gan weithio gyda phartneriaid i ddangos gwerth y gwasanaeth o ran presgripsiynu cymdeithasol yn benodol. Ymhlith y mentrau sy'n mynd rhagddynt mae darparu llyfrgell gymunedol mewn ysgol, a fydd yn cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr ond gyda chymorth staff a stoc o'r prif wasanaeth llyfrgell, a ddaw, gobeithio, yn gwbl weithredol o fewn y flwyddyn. Cyfeirir hefyd at waith traws-sector, i gefnogi datblygiadau ynghylch treftadaeth a hanes lleol yr ardal, ac i hyrwyddo darllen a gwasanaethau plant.

6 Casgliad

Caiff gwasanaethau llyfrgell eu darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful ar ran y Cyngor Bwrdeistref. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i berfformio'n dda yn 2018/19, gan gofnodi lefelau defnydd gwell mewn nifer o feysydd a lefelau uchel o foddhad cwsmeriaid. Fodd bynnag, effeithiodd problemau capasiti ar rai agweddau ar y ddarpariaeth, yn bennaf, rhaglenni digwyddiadau a gweithgareddau. Mae gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu yn 2018/19, ac mae'r gwasanaeth ymhlith yr ychydig awdurdodau sydd wedi parhau i gyrraedd y targedau caffael a bennwyd. Dylai buddsoddiad penodol mewn stoc iaith Gymraeg, gyda gwaith marchnata priodol, gael effaith gadarnhaol ar faterion Cymraeg yn 2019/20 hefyd. Mae gwelliannau yn yr adnoddau a roddwyd i'r gwasanaeth wedi'i gwneud yn bosibl iddo atgyfnerthu perfformiad, er bod lefelau staffio isel yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol. Dylai ymrwymiad parhaus yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol i gefnogi gwasanaethau llyfrgell gydnabod yr effaith gadarnhaol a gaiff lefel briodol o fuddsoddiad mewn staff, adnoddau a chyfleusterau ar ddefnyddwyr.

ⁱMae e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog wedi cael eu heithrio o'r ffigurau caffael ar gyfer DA 9 yn 2018/19 er mwyn sicrhau bod y safon yn adlewyrchu strategaeth, buddsoddiad a pherfformiad unigol yr awdurdod yn gywir. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi effeithio ar gyflawniad yn erbyn y safon o gymharu â 2017/18. Mae Ffurflenni Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gynhyrchir yn ganolog.